

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion cyfarfod Hydref 3ydd , 2013 o Gyngor Tref Y Bala

Presennol: Y Maer, Dorothe Evans, Y Dirprwy Faer, Ivora Jones , Dilys Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Alun Price, Edith Roberts, Eifion Roberts, John C Williams, Y Clerc, Lis Puw

999. Croesawodd y Maer pawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dilwyn Morgan, Islwyn Pritchard Jones, Shan Ranson a Sharon Evans. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan gynrychiolwyr yr Heddlu.

1000 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Ymatebwyr Cyntaf y Gymuned a addawid rhoi cyflwyniad ar eu gwaith yng nghyfarfod Tachwedd.

1001 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1002 Nid oedd datganiadau o fuddiant ar fater ar yr Agenda.

1003 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Medi 5ed 2013.

1004 **Materion yn codi o gofnodion Medi:**

i. 990ii Gan nad oedd Sharon Evans yn bresennol, gohiriwyd ystyried cais y Clwb Hoci am gymorth.

ii. 993 Cytunodd Alun Price i wirio'r Asedau'r mis hwn.

iii. 994 Uwchraddiwyd y gynrychiolaeth ar fudiadau ac is-bwyllgorau.

Gweithredu: Clerc

iv. 997x Cytunodd y Maer, y Dirprwy faer, Eifion Roberts, Dilwyn Jones a'r Clerc gyfarfod Dylan Wynn Jones ar 4/10/13i bwysu am groesfan gyda goleadau ar yr B4391 wrth yr arch-farchnad arfaethedig.

v. 998ii Mynegwyd cefnogaeth i'r Grŵp Ymwelwyr wneud cais am osod Baneri Croeso ar gyfer achlysuron arbennig ar y ffyrdd mewn i'r dref. Awgrymwyd talcenni adeiladau fel safleoedd posibl wrth ddod i'r dref o'r dwyrain.

Gweithredu: Clerc

vi. 998ii Adroddodd y Maer fod cwmni Pentrefoelas mewn sefyllfa i gynhyrchu plac a defnyddiau eraill i hyrwyddo Cyngor tref Y Bala; bydd yn cysylltu ymhellach. **Gweithredu: Y Maer**

vii. 998vi Cytunwyd i wahodd Tîm Opsiynau Tai Cyngor Gwynedd a Chymdeithas Tai Clwyd i roi esboniad ar y drefn o osod tai. **Gweithredu: Clerc**

1005. Materion y Cynghorydd Sir

Derbyniwyd adroddiad cynhwysfawr yn cynnwys:

- i. Mainc Blaenddôl – mae mewn cyflwr da ond angen paent
- ii. Cadwynau wrth fynedfa Meddygfa'r Hafan – y gwaith o osod polion newydd mewn llaw
- iii. Tarmac wrth lwybr y Cae Rygbi – heb ddatrys y mater yn llawn
- iv. Neuadd Buddug. Roedd y Cynghorydd Dilwyn Morgan wedi ymgynnull Panel o Swyddogion Gwynedd, staff Neuadd Buddug a chynrychiolwyr lleol i fynegi barn ar ddyfodol Neuadd Buddug. Adroddodd nad oedd amheuaeth fod y Neuadd dan fygythiad, ond roedd yn teimlo fod angen bod yn gadarnhaol a chydweithio i gynllunio'r ffordd ymlaen.

Rhoddodd Eluned Jones adroddiad manwl o'r cyfarfod am Neuadd Buddug a thrafodwyd y mater o warchod yr adeilad neu warchod y gwasanaeth. Cytunwyd i ystyried ymhellach ar ôl derbyn adroddiad o gyfarfod nesaf y panel.

- v. Adroddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan iddo drefnu cyfarfod sydd wedi'i drefnu ar bnawn y 16 Hydref. Y bwriad fydd cerdded o gwmpas y Stryd Fawr mewn grwpiau gwahanol gan nodi pethau sydd angen eu tacluso neu unrhyw welliant sydd angen ei wneud. Bydd y grwpiau yn cynnwys cynghorwyr, aelodau o grwpiau busnes twristiaeth, Heddlu, Parc Cenedlaethol a disgyblion y tair ysgol yn y dref Mynegodd ei fod yn eithaf ffyddiog o gael swm bychan o arian ar gyfer rhoi cychwyn ar wahanol brosiectau. Unwaith eto'r flaenoriaeth iddo oedd cynnwys y gymuned i roi syniadau yn hytrach na syniadau yn cael eu lluchio o'r tu allan.
- vi. Adroddodd iddo dderbyn sicrwydd gan yr Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb dros Addysg y byddai Panel Defnyddwyr Lleol yn cael ei ffurfio'n fuan i drafod ys ysgol gydol oes.
- vii. Diolchodd y Maer i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan am ei adroddiad cynhwysfawr.

1006. Materion Cynllunio

- i. NP5/53/36B 81-13 Stryd Fawr: cais am ffliw allanol - cymeradwywyd
- ii. NP5/53/36B 1, Heol yr Orsaf – newidiadau i adeilad cofrestredig - cymeradwywyd
- iii. NP5/53/LB291A 36, Heol Tegid – newidiadau mewnol a strwythurol -cymeradwywyd

1007. Materion Cyllid

- i. Derbyniwyd manylion am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf
- ii. Dychwelwyd Ffurflen Hacker Young i'r Cyngor a chytunwyd i dalu'r ffi. **Gweithredu: Clerc**

- iii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis: Vodaphone a Goleuadau Nadolig. Er mwyn arbed arian, cytunwyd i'r awgrym i edrych mewn i dalu am ffôn y Cyngor ar sail "Talu a mynd" yn hytrach na Chytundeb. **Gweithredu: Clerc**
- iv. Anfoneb Cannon – mae'r Clerc wedi anfon hwn i sylw Cyngor Gwynedd.
- v. Gohebiaeth Hill and Roberts: cytunodd yr is bwyllgor Cyllid i edrych ar fanylion y Cytundeb gyda'r Clerc er mwyn eu cyflwyno'n gywir i'r Cyfrifwyr. **Gweithredu: Dilys Evans ac Eifion Roberts.** Cytunwyd i dalu cyfran y Cyngor o PAYE y cyn-glerc. **Gweithredu: Clerc**
- vi. Cyfrif Busnes: mae'r gwaith o drosglwyddo hwn i'r cyfrif canolog mewn llaw.
- vii. Cwblhawyd y trefniadau ar gyfer newid y mandad banc.
- viii. Cytunwyd i dalu am ail gyfeirio'r post am gyfnod o 6 mis. **Gweithredu: Clerc**

1008. Gohebiaeth

a. Llywodraeth Cymru:

- i. Nodwyd derbyn Rhaglen Arolygiad Etholiadol, sydd ddim yn berthnasol ar hyn o bryd i Wynedd.
- ii. Nodwyd derbyn Adolygiad Blynyddol Pwyllgor Cymru'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, sy'n esbonio beth y gwnaethpwyd ar gyfer defnyddwyr dŵr yn 2012/13.

b. Cyngor Gwynedd

- i. Nodwyd fod swyddfa'r Cofrestrwydd wedi symud i'r Ganolfan Hamdden.
- ii. Derbyniwyd gwahoddiad i lansio'r llwybr rhwng Cynwyd a'r Bala; manylion i ddilyn.

c. Un Llais Cymru

- i. Rhoddodd y Clerc adroddiad o Bwyllgor Ardal Meirionnydd gan gyfeirio'n benodol at y nifer sylweddol o deuluoedd yn Y Bala a effeithir gan y newidiadau i'r budd-dal a adweinir fel "llofft sbâr".
- ii. Nodwyd gwybodaeth am yr Hyfforddiant sydd ar gael. Nododd y Clerc y bydd yn mynychu hyfforddiant "Côd Ymddygiad" yn Nolgellau a drefnwyd gan Cyngor Gwynedd.
- iii. Derbyniwyd llythyr cyflwyniad gan swyddog newydd Gogledd Cymru, Luned Evans.

d. Eraill

- i. Rhoddwyd ystyriaeth i e-bost parthed gwair o flaen 2 Heol y Domen a chytunwyd i hysbysu'r perchnogion fod y mater wedi ei anfon i sylw'r Adran Priffyrdd.

Gweithredu: Clerc

- ii. Derbyniwyd cylchlythyron Councils Direct; Glasdon; Nightingale News; Hafan a Chi; Cymdeithas Tai Clwyd
- iii. Rhoddwyd ystyriaeth i e-bost gan Gymdeithas Chwaraeon Y Bala a Phenllyn parthed baw ci ar y maes criced. Cytunwyd i'w cyfeirio at y Swyddog Gorfodaeth. Ar yr un pryd fe'u hatgoffir fod J C Williams ac Eifion Roberts yn barod iawn i fynychu cyfarfodydd fel cynrychiolwyr y Cyngor Tref ar bwyllgor y Gymdeithas Chwaraeon, os oes rhybudd rhesymol. **Gweithredu: Clerc**
- iv. Cytunwyd fod yr hawl gan y Maer wneud cyfraniad at raffl Nadolig y Pafiliwn.
- v. Derbyniwyd neges y bydd y CAB ym maes parcio'r Plase unwaith bob pythefnos ac anogir trigolion i wneud defnydd o'r gwasanaeth gwerthfawr hwn.
- vi. Nodwyd derbyn e-bost gan yr Heddlu am leihau galwadau diangen.
- vii. Darllenodd y Maer lythyr a dderbyniodd gan Adrian Murray yn amlinellu ei ymweliad a Milo ac yn gwahodd pawb i glywed hanes y daith.

1009. Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad gan y Cydlynnydd a gyfeiriodd at gydweithio gyda Shan Parry ar yr iaith ym Mhenllyn. Adroddodd fod yr arian i gyd wedi ei sicrhau i uwchraddio llawr waelod yr Henblas ar gyfer Canolfan Gwasanaethau; mae enwau adeiladwyr lleol wedi eu rhoi i'r syrfewr a chynhaliwyd cyfarfod gyda'r swyddog marchnata.

Mae Partneriaeth Penllyn wedi anfon at brif swyddogion Gwynedd i ofyn am fwy o gyfrifoldebau er mwyn cylchdroi unrhyw elw er lles pobl Penllyn. Mae'r gwaith ar ran Parc Cenedlaethol Eryri yn mynd yn ei flaen yn hwylus.

Derbyniodd Partneriaeth Penllyn wahoddiad i annerch Fforwm Meirionnydd.

1010. **Materion brys**

Trafodwyd y newydd diweddar fod Cwmni Arriva yn diddymu'r gwasanaeth bws X94, a dosbarthwyd ymateb Dafydd Elis Thomas a llythyr Edwina Hart yn cytuno i'w gyfarfod i geisio llunio gwasanaeth integredig.

Derbyniodd y Clerc ateb llawn i'w hymholiad gan y Deilydd Portffolio, Cyngorydd Gareth William Roberts yn amlinellu ymateb Uned Trafnidiaeth Gwynedd.

Cytunwyd i ysgrifennu i gefnogi Dafydd Elis Thomas yn ei ymdrechion i gadw gwasanaeth bysiau i'r ardal, gan gyfeirio'n arbennig at bwysigrwydd gallu teithio i Ysbyty a Choleg yn Wrecsam. **Gweithredu: Clerc**

1011. **Dyddiad Cyfarfod Rhagfyr**

Cytunwyd i'r Clerc ceisio trefn dyddiadau posib gyda threfnydd Canolfan Bro Tegid. **Gweithredu: Clerc**